

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran Polisi a Diwygio'r Dreth Gyngor Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Mark Drakeford AS**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**  
**22 Hydref 2025**

## **RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

### **1. Disgrifiad**

- 1.1 Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2025 ('Rheoliadau 2025') yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 ('Rheoliadau 1992'). Mae Rheoliadau 1992 yn gwneud y darpariaethau manwl ynghylch bilio, casglu a gorfodi'r dreth gyngor.
- 1.2 Mae Rheoliadau 2025 yn diwygio rheoliadau 23, 24, 27, 33 a 34 o Rheoliadau 1992 i sicrhau bod hysbysiad atgoffa a hysbysiad terfynol bob amser yn cael eu dyroddi pan fydd rhandaliad treth gyngor yn cael ei fethu, cyn y gall awdurdod bilio gymryd camau gorfodi. Mae Rheoliadau 2025 yn rhagnodi'r amgylchiadau pan fydd rhaid cyflwyno hysbysiad terfynol, yr adeg y daw'r trethdalwr/trethdalwyr yn atebol i dalu'r balans blyneddol a phryd y gall awdurdod bilio wneud cais am orchymyn atebolrwydd.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

- 2.1 Dim.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

- 3.1 Gwneir Rheoliadau 1992 o dan Atodlen 2 ac Atodlen 4 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992").
- 3.2 Mae paragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 1992 yn darparu pŵer eang i wneud rheoliadau mewn perthynas â chasglu symiau y mae person yn atebol i'w talu mewn cysylltiad â'r dreth gyngor ac agweddau eraill ar weinyddu.
- 3.3 Mae paragraff 2(4)(e) o Atodlen 2 i Ddeddf 1992 yn darparu pŵer i ragnodi ffurf hysbysiad a gyflwynir gan awdurdod bilio.
- 3.4 Mae paragraff 2(5)(a) o Atodlen 2 yn caniatáu i reoliadau ddarparu bod balans heb ei dalu'r swm a godir yn daladwy ar y diwrnod ar ôl diwedd cyfnod rhagnodedig.
- 3.5 Mae paragraff 3(1) a (2) o Atodlen 2 i Ddeddf 1992 yn galluogi i ddarpariaeth gael ei gwneud ynghylch casglu symiau y mae personau yn atebol i'w talu ar y cyd ac yn unigol mewn cysylltiad â'r dreth gyngor, ac a allai fod yn cyfateb i'r ddarpariaeth a gynhwysir o dan baragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 1992.
- 3.6 Mae paragraff 4(2) yn darparu y bydd yr awdurdod, cyn gwneud unrhyw gyfrifiad o'r swm a godir at ddibenion rheoliadau o dan Atodlen 2 i Ddeddf 1992, yn cymryd camau rhesymol i ganfod a yw'r swm hwnnw'n ddarostyngedig

i unrhyw ddisgownt neu gynnydd, ac os felly, swm y disgownt neu'r cynnydd hwnnw.

- 3.7 Mae paragraff 1(1)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf 1992 yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas ag adennill symiau heb eu talu sy'n daladwy i awdurdod bilio o dan ddarpariaethau a wneir mewn rheoliadau a wneir o dan baragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 1992.
- 3.8 Mae paragraffau 3(1)(a) a (4)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf 1992 yn caniatáu i'r rheoliadau hyn ganiatáu i awdurdod bilio wneud cais i lys ynadon am orchymyn atebolrwydd a rhagnodi'r camau sydd i'w cymryd cyn y caniateir gwneud cais.
- 3.9 Trosglwyddwyd holl swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru.
- 3.10 Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol (adran 113(3) o Ddeddf 1992).
- 3.11 Nid yw Deddf 1992 yn darparu'n benodol ar gyfer dyroddi canllawiau mewn perthynas â chasglu'r dreth gyngor, ac felly ni ellir dyroddi canllawiau statudol. Fodd bynnag, gellid dyroddi canllawiau anstatudol o dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006").

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

- 4.1 Mae ôl-ddyledion treth gyngor yn broblem ddyled gyffredin i aelwydydd yng Nghymru, yn aml ochr yn ochr â dyledion eraill, sy'n arwain at broblemau ariannol difrifol. Gall bod ar ei hôl hi â'r dreth gyngor arwain at wŷs llys, gorchymyn atebolrwydd, neu ymweliadau gan asiantau gorfodi. Mae ymchwil yn dangos bod fframwaith casglu'r dreth gyngor yn gallu ei gwneud yn anodd i aelwydydd osgoi dyled oherwydd ei bod yn cynyddu i swm mwy yn gymharol gyflym, gan beri i'r broblem bara yn hwy yn aml. Gall effaith dyled ar unigolion a theuluoedd fod yn negyddol ac yn hirhoedlog.
- 4.2 Bwriad Rheoliadau 2025 yw creu proses orfodi decach, dryloyw a mwy effeithiol ar gyfer treth gyngor heb ei thalu.
- 4.3 Maent yn diwygio Rheoliadau 1992 i roi amser ychwanegol i awdurdodau bilio ymgysylltu â'r trethdalwr, deall ei amgylchiadau, a chynnig cymorth cyn bwrw ymlaen â chmau gorfodi. Bydd amserlen estynedig hefyd yn galluogi'r trethdalwr i adfer ar ôl digwyddiadau neu amgylchiadau heriol a allai fod wedi cyfrannu at ei drafferthion ariannol, gan roi cyfle iddo sefydlogi ei sefyllfa, cael cyflog neu fudd-daliadau pellach i dalu costau, cael mynediad at wasanaethau cymorth ariannol a chael mynediad at gyngor proffesiynol ar ddyledion.
- 4.4 Mae rheoliad 3 o Reoliadau 2025 yn diwygio rheoliad 23 o Reoliadau 1992 sy'n rhagnodi'r broses i awdurdod bilio ei dilyn pan na chaiff rhandaliadau treth gyngor eu talu.

- 4.5 Mae rheoliad 3(b) yn diwygio rheoliad 23(1) o Reoliadau 1992 i ragnodi y caiff awdurdodau bilio yng Nghymru ddyroddi hysbysiad atgoffa pan fydd rhandaliad treth gyngor yn cael ei fethu. Gall yr hysbysiad atgoffa gynnwys rhandaliadau yn y dyfodol sy'n daladwy o fewn saith diwrnod o'r dyddiad y dyroddir yr hysbysiad. Mae'r diwygiad hwn yn cadw'r hyblygrwydd presennol, gan ganiatáu i awdurdodau bilio benderfynu ar yr amseriad mwyaf priodol ar gyfer dyroddi hysbysiadau atgoffa yn seiliedig ar anghenion gweinyddol lleol.
- 4.6 Mae rheoliadau 3(c), (d) ac (e) yn datgymhwyso paragraffau (2), (3) a (4) o reoliad 23 o Reoliadau 1992 o ran Cymru. Bydd hyn yn dileu'r cyfnod rhagnodedig ar gyfer gwneud taliad cyn y daw'r balans heb ei dalu yn daladwy ac yn sicrhau bod hysbysiad atgoffa yn cael ei ddyroddi ar gyfer pob rhandaliad treth gyngor nad yw wedi'i dalu mewn blwyddyn ariannol.
- 4.7 Mae rheoliad 3(f) yn mewnosod gofyniad i hysbysiad atgoffa o ran Cymru ddarparu manylion am y swm sy'n hwyr ac unrhyw symiau a fydd yn dod yn daladwy o fewn saith diwrnod ar ddiwrnod ei ddyroddi. Gall awdurdodau bilio gynnwys unrhyw wybodaeth arall y maent yn ystyried ei bod yn angenrheidiol.
- 4.8 Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 33 o Reoliadau 1992 sy'n darparu'r camau rhagarweiniol y mae rhaid eu cymryd cyn y gall awdurdod bilio wneud cais i lys ynadon am orchymyn atebolrwydd.
- 4.9 Mae rheoliad 6(d) yn mewnosod gofyniad na ellir dyroddi hysbysiad terfynol o ran Cymru lai na 14 diwrnod ar ôl i'r hysbysiad atgoffa diweddaraf gael ei ddyroddi a dim llai na 41 diwrnod ers i rhandaliad gael ei fethu ac y mae'n parhau i fod heb ei dalu. Mae darpariaethau pellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad terfynol nodi'r swm sydd heb ei dalu ar y diwrnod y caiff ei ddyroddi, a bod y swm yn daladwy o fewn 21 diwrnod o'r diwrnod y dyroddir yr hysbysiad terfynol. Os na chaiff y taliad ei wneud o fewn 21 diwrnod, yna daw balans heb ei dalu'r swm a godir (y balans blyneddol) yn daladwy ar y diwrnod canlynol.
- 4.10 Mae rheoliad 7 yn diwygio rheoliad 34 o Reoliadau 1992 sy'n darparu'r camau i'w cymryd i awdurdod bilio wneud cais i lys am orchymyn atebolrwydd.
- 4.11 Mae rheoliad 7(b) yn mewnosod darpariaethau i ganiatáu i awdurdod bilio yng Nghymru wneud cais am orchymyn atebolrwydd pan fo'r swm a nodir yn yr hysbysiad terfynol yn parhau i fod heb ei dalu'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar ôl cyfnod o 21 diwrnod o'r diwrnod y dyroddwyd hysbysiad terfynol. Mae'r darpariaethau yn caniatáu i awdurdod bilio wneud cais am orchymyn atebolrwydd un diwrnod ar ôl i falans heb ei dalu'r swm a godir ddod yn daladwy.
- 4.12 O ganlyniad i'r diwygiadau i hysbysiadau atgoffa a hysbysiadau terfynol, mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 24 o Reoliadau 1992 i adlewyrchu'r ffaith bod y balans heb ei dalu yn dod yn daladwy ar ôl i berson atebol fethu â thalu'r swm a nodir o dan hysbysiad terfynol yn hytrach nag o dan hysbysiad atgoffa. Yn yr un modd, mae rheoliad 5 yn diwygio rheoliad 27 o Reoliadau 1992 er mwyn

galluogi'r diwygiadau a wneir i reoliad 33 i weithredu yn achos talwyr y dreth gyngor sy'n atebol ar y cyd ac yn unigol.

- 4.13 Bydd y newidiadau i hysbysiadau atgoffa a hysbysiadau terfynol yn rhoi o leiaf 63 diwrnod i aelwyd o'r dyddiad y bydd rhandaliad yn cael ei fethu i pan fydd yr awdurdod bilio yn gallu gwneud cais am orchymyn atebolrwydd ar gyfer y balans blynyddol sydd heb ei dalu. Mae hyn yn golygu y gallai trethdalwr fethu tri rhandaliad cyn y gall awdurdod bilio gymryd camau i adennill y ddyled os nad yw wedi talu'r swm sy'n daladwy neu wedi cytuno ar gynllun talu amgen gyda'r cyngor.
- 4.14 Mae awdurdodau bilio yng Nghymru eisoes yn defnyddio [Protocol y Dreth Gyngor](#) fel canllaw i gefnogi aelwydydd sy'n ei chael yn anodd. Mae'r protocol hwn yn cryfhau partneriaethau rhwng awdurdodau bilio ac asiantau gorfodi ac yn darparu canllawiau ar gyfer cefnogi aelwydydd sy'n agored i niwed. Er nad yw'n cael ei ragnodi yn Rheoliadau 2025, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau arferion gorau anstatudol, ochr yn ochr â Phrotocol y Dreth Gyngor, er mwyn sicrhau dull teg a chyson o gasglu'r dreth gyngor ledled Cymru, dull sy'n symud y ffocws tuag at weithgareddau ataliol yn gynharach yn y broses gasglu. Bydd hyn yn helpu awdurdodau bilio i gasglu trethi'n rhesymol ac i gynnig cynlluniau talu amgen neu gymorth arall i'r rhai hynny sy'n cael trafferth talu.

## 5. Ymgynghori

- 5.1 Ar 30 Ebrill 2025, lansiodd Llywodraeth Cymru [ymgynghoriad](#) cyhoeddus 12 wythnos ar y cynigion polisi i fwriad y polisi. Cafwyd 272 o ymatebion oddi wrth amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff cynrychiadol, awdurdodau bilio, sefydliadau cynghori ac aelodau eraill o'r cyhoedd. Cyhoeddwyd [crynodedb o'r ymatebion](#) ar 26 Medi 2025.
- 5.2 Yn ogystal â'r ymgynghoriad ffurfiol, cynigiwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu i holl awdurdodau bilio Cymru. Dewisodd 19 allan o 22 gymryd rhan. Roedd y sesiynau hyn yn fforwm gwerthfawr i ystyried y cynigion yn fanwl a gwerthuso eu goblygiadau ymarferol a gweithredol fesul achos, gan gyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr opsiynau

- 6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn mewn perthynas â gwella'r broses o weinyddu a gorfodi'r dreth gyngor. Mae'r holl gostau a manteision a fesurir yn yr Asesiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cyhoeddi.
- 6.2 Priodolir y rhan fwyaf o'r costau a'r manteision a amlinellir yn yr Asesiad hwn i awdurdodau bilio. O ystyried yr ystod o wahaniaethau rhwng ardaloedd, poblogaethau, prosesau a niferoedd achosion awdurdodau bilio, cyflwynwyd amcangyfrifon sy'n seiliedig ar gyfartaleddau a/neu ystodau posibl o welliannau i gyfrif am yr amrywiadau hyn.
- 6.3 Nid yw'r Asesiad hwn yn cynnwys manteision penodol sy'n gysylltiedig ag ôl-ddyledion biliau treth gyngor unigol i awdurdodau bilio neu drethdalwyr. Oherwydd yr amrywioldeb yn y cyfraddau treth gyngor a godir gan awdurdodau bilio, ac o ran biliau unigol a chyfansymiau'r ôl-ddyledion, byddai amcangyfrifon o'r fath yn wahanol iawn fesul achos. Gallai ceisio meintoli'r effeithiau hyn arwain at gasgliadau anghywir a allai fod yn gamarweiniol.
- 6.4 Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn.

**Opsiwn 1 – Gwneud dim** – cadw Rheoliadau 1992 heb eu diwygio ymhellach a pharhau â'r fframwaith statudol presennol ar gyfer bilio, casglu a gorfodi'r dreth gyngor.

**Opsiwn 2 – Deddfu i wella'r broses o weinyddu a gorfodi ar gyfer casglu'r dreth gyngor yng Nghymru** – gwneud Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2025.

### Costau a manteision

#### **Opsiwn 1 – Gwneud dim**

- 6.5 Bydd yr arferion presennol o ran bilio, casglu a gorfodi'r dreth gyngor yn parhau i fod ar waith, felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol wedi'u nodi i Lywodraeth Cymru nac awdurdodau bilio.
- 6.6 Mae'r fframwaith presennol ar gyfer bilio, casglu a gorfodi'r dreth gyngor wedi bod ar waith ers dros 30 mlynedd. Mae'r fframwaith yn adnabyddus ac mae awdurdodau bilio ac asiantaethau cynghori yn ei ddeall.
- 6.7 Fodd bynnag, gall cadw'r fframwaith presennol arwain at broblemau parhaus a nodwyd gan randdeiliaid, megis diffyg hyblygrwydd i gefnogi aelwydydd sy'n agored i niwed, dulliau cyfathrebu hen ffasïwn, ac arferion gorfodi annheg, sy'n

dal i arwain at gynnydd cyflym yn nyled y dreth gyngor pan fydd taliadau yn cael eu methu.

- 6.8 Efallai y bydd costau hefyd o ran enw da i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau bilio os bydd canfyddiad o ddiffyg gweithredu yn arwain at feirniadaeth ynghylch tegwch neu gyfiawnder mewn prosesau treth gyngor. Byddai peidio â diwygio'r drefn orfodi yn golygu na fyddai'r ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i dreth gyngor decach yn cael ei gyflawni.

***Opsiwn 2 – Deddfu i wella'r broses o weinyddu a gorfodi ar gyfer casglu'r dreth gyngor yng Nghymru***

**Costau**

- 6.9 Prif fwriad Rheoliadau 2025, sy'n diwygio Rheoliadau 1992, yw addasu'r gweithdrefnau gweinyddu a gorfodi allweddol ar gyfer casglu treth gyngor heb ei thalu yng Nghymru.
- 6.10 Yn benodol, mae Rheoliadau 2025 yn newid yr adeg pan fydd y swm a godir sydd heb ei dalu yn dod yn daladwy yn gyfreithiol, gan ei hymestyn a'i symud o'r cam hysbysiad atgoffa i'r cam hysbysiad terfynol. Mae'r addasiad hwn yn ymestyn yr amserlen cyn y gall awdurdod bilio ddechrau achos gorfodi ffurfiol i o leiaf 63 diwrnod o'r dyddiad pan fydd y rhandaliad yn cael ei fethu.
- 6.11 Bydd awdurdodau bilio yng Nghymru yn cadw disgresiwn a hyblygrwydd i ddyroddi hysbysiadau atgoffa ar gyfer rhandaliadau treth gyngor heb eu talu cyhyd â bod yr amserlenni gofynnol yn cael eu bodloni. Caniateir i awdurdodau ddyroddi hysbysiadau atgoffa ar adeg y maent yn ystyried ei bod yn briodol a chaniateir iddynt ragflaenu hysbysiadau ffurfiol gyda chyfathrebiadau 'meddalach' ar y cam cyn-atgoffa fel negeseuon e-bost, negeseuon testun neu fathau eraill o ymgysylltu. Rhaid i bob hysbysiad atgoffa nodi'r swm sy'n daladwy ar y diwrnod y caiff ei ddyroddi a gall gynnwys unrhyw symiau a fydd yn dod yn daladwy o fewn saith diwrnod i ddyroddi'r hysbysiad atgoffa. Gall awdurdodau hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol y maent yn ystyried ei bod yn ddefnyddiol, fel cyfarwyddiadau ar gyfer talu neu opsiynau cymorth i breswylwyr sy'n cael trafferth talu.
- 6.12 Mae Rheoliadau 2025 hefyd yn diwygio'r ffordd yr ymdrinnir â thaliadau sy'n cael eu methu dro ar ôl tro. Yn benodol, os bydd aelwyd yn methu rhandaliad treth gyngor am y trydydd tro yn yr un flwyddyn ariannol, rhaid trin y rhandaliad hwn yn yr un modd â'r taliad cyntaf a'r ail daliad a fethwyd. O dan y newid hwn, mae'n ofynnol i awdurdodau bilio ddyroddi hysbysiad atgoffa bob tro, gan sicrhau bod yr aelwyd yn cael ei hysbysu'n llawn cyn y cymerir unrhyw gamau pellach. Mae hyn yn disodli arferion blaenorol a fabwysiadwyd gan rai awdurdodau a oedd yn osgoi hysbysiadau atgoffa a hysbysiadau terfynol mewn achosion o daliadau hwyr parhaus, gan fwrw ymlaen yn syth i'r cam gwys llys.
- 6.13 Mae Rheoliadau 2025 hefyd yn cyflwyno newid sylweddol drwy newid yr adeg y caiff yr elfen gyfreithiol ei sbarduno ar gyfer y balans blyneddol heb ei dalu sy'n daladwy, o'r adeg y dyroddir hysbysiad atgoffa i'r cam hysbysiad terfynol. Mae'r

newid hwn yn ymestyn yr amserlen cyn y gall awdurdodau bilio ddechrau achos gorfodi ffurfiol. O dan y Rheoliadau diwygiedig, byddai awdurdodau yn dyroddi hysbysiad terfynol ac yn caniatáu i gyfnod penodol fynd heibio cyn gwneud cais i lys am orchymyn atebolrwydd. Mae hyn yn creu proses gliriach a mwy cyson, gan leihau'r tebygolrwydd o gamau cyfreithiol sydyn.

- 6.14 Nod y newidiadau deddfwriaethol yw safoni'r broses, gan sicrhau bod pob trethdalwr yn cael hysbysiad atgoffa a hysbysiad terfynol cyn y gall camau gorfodi ddechrau. Er bod y newidiadau hyn yn anelu at wella ymgysylltiad a thryloywder, gallant hefyd gynyddu costau gweinyddol, yn enwedig ar gyfer awdurdodau a oedd yn arfer symud yn uniongyrchol i gamau orfodi pan nad oedd aelwyd wedi talu ar ôl nodyn atgoffa neu pan oedd aelwyd eisoes wedi cael dau nodyn atgoffa o fewn blwyddyn ariannol.
- 6.15 Er mwyn asesu'r effaith bosibl, gofynnodd Llywodraeth Cymru am ddata gan bob un o'r 22 awdurdod bilio yng Nghymru ar nifer yr hysbysiadau atgoffa, yr hysbysiadau terfynol, a'r gwysion llys a ddyroddwyd a nifer y gorchmynion atebolrwydd a roddwyd yn ystod 2024-25, i'w defnyddio fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer effeithiau'r Rheoliadau diwygiedig.
- 6.16 Yn ystod sesiynau ymgysylltu, gofynnwyd i awdurdodau bilio hefyd amcangyfrif y costau ychwanegol a ragwelwyd ganddynt o ganlyniad i'r newidiadau deddfwriaethol. Dim ond un awdurdod a ddarparodd amcangyfrif cost o £35k ond ni esboniodd y fethodoleg a ddefnyddiwyd. O ystyried y nifer uchel o hysbysiadau a ddyroddir yn rheolaidd i dalwyr y dreth gyngor (gyda llawer o drethdalwyr yn talu ar ôl cael hysbysiad), a'r diffyg systemau olrhain manwl sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, mae asesu'r effaith ariannol yn gywir yn parhau i fod yn heriol. Mae'r amcangyfrifon canlynol yn seiliedig ar y data a gasglwyd. Ymhlith penderfynyddion allweddol eraill nifer yr aelwydydd sydd mewn dyled treth gyngor, mae perfformiad cyffredinol yr economi a'r pwysau costau byw a wynebwr gan aelwydydd. Pan fo pwysau economaidd yn cael eu lliniaru'n fwy cyffredinol, mae incwm gwario aelwydydd yn gwella ac felly hefyd y gallu i dalu biliau aelwyd.
- 6.17 Yn ystod 2024–25, amcangyfrifir bod awdurdodau bilio yng Nghymru gyda'i gilydd wedi dyroddi oddeutu 420,000 o hysbysiadau atgoffa a 130,000 o hysbysiadau terfynol. Fodd bynnag, roedd arferion lleol yn amrywio: nid oedd rhai awdurdodau yn dyroddi hysbysiadau terfynol os oedd hysbysiad atgoffa yn parhau i fod heb ei dalu ar ôl saith diwrnod, tra oedd eraill yn osgoi hysbysiadau atgoffa yn gyfan gwbl ar gyfer aelwydydd â thaliadau hwyr dro ar ôl tro. Mae diffyg data cynhwysfawr ar nifer yr achosion gorfodi a ddechreuwyd heb hysbysiad atgoffa a/neu hysbysiad terfynol yn ei gwneud yn anodd asesu'n gywir y cynnydd posibl mewn costau gweinyddol.
- 6.18 Er enghraifft, adroddodd un awdurdod, nad oedd yn dyroddi hysbysiadau terfynol yn rheolaidd, ei fod wedi dyroddi tua 25,000 o hysbysiadau atgoffa ac 8,000 o wysion llys yn ystod 2024–25. O dan y rheoliadau newydd, byddai'r 8,000 o wysion llys hynny hefyd wedi gofyn am hysbysiadau terfynol, gan gostio tua £12,400. O ehangu'r senario hwn ledled Cymru, mae'r effaith flynyddol ar y gost yn amrywio o £2,000 i £16,000 fesul awdurdod, yn dibynnu



ar faint o wysion llys a ddyroddir, sef cyfanswm amcangyfrifedig o £180,000 y flwyddyn ledled Cymru. Dros Asesiad pum mlynedd, byddai hyn yn cyfateb i gyfanswm cost gwerth presennol o £841,000 ledled Cymru. Fodd bynnag, mae arferion lleol yn amrywio. Nid yw pob un o'r 22 awdurdod bilio yn hepgor hysbysiadau terfynol fel hyn, gyda llawer o awdurdodau yng Nghymru yn eu dyroddi'n rheolaidd. Felly, efallai na fydd yr amcangyfrif hwn o'r ystod o gostau yn cynrychioli cost ychwanegol yn gyffredinol. Gallai cyflwyno hysbysiadau terfynol yn fwy cyson hefyd arwain at ddatrys mwy o ddyledion a lleihau nifer y gwysion llys a ddyroddir a chmau gorfodi costus cysylltiedig.

- 6.19 Ar hyn o bryd, oherwydd arferion lleol amrywiol, nid yw'n bosibl penderfynu faint o aelwydydd sy'n setlo symiau sy'n daladwy ar ôl hysbysiad atgoffa neu hysbysiad terfynol. Amcangyfrifir bod tua 116,000 o wysion llys wedi'u dyroddi ledled Cymru yn 2024-25, gan arwain at roi tua 91,000 o orchmynion atebolrwydd. Mae'r gwahaniaeth yn debygol o adlewyrchu achosion a gafodd eu talu'n llawn neu eu tynnu'n ôl. Fodd bynnag, nid oes data clir ar faint o'r achosion hyn a ddilynodd y drefn hysbysu newydd, sydd hefyd yn ei gwneud yn anodd amcangyfrif effaith gyffredinol y newidiadau ar gostau gweinyddol.
- 6.20 Mae awdurdodau hefyd wedi awgrymu y bydd dileu'r rheol flaenorol, pan na anfonwyd hysbysiadau atgoffa ychwanegol at unigolion a oedd wedi cael dau hysbysiad atgoffa o fewn blwyddyn ariannol, yn arwain at gostau gweinyddol uwch. O dan y system ddiwygiedig, rhaid dyroddi hysbysiad atgoffa newydd ar gyfer pob taliad dilynol a fethir i unrhyw drethdalwr sy'n talu ar ôl cael hysbysiad atgoffa, waeth faint o hysbysiadau atgoffa y mae eisoes wedi'u cael yn ystod y flwyddyn. Er nad oes data manwl gywir ar achosion o'r fath ar gael, mae amcangyfrif yn awgrymu y gallai'r newid hwn arwain at gynnydd o 30% yn nifer yr hysbysiadau atgoffa a ddyroddir. Yn seiliedig ar y rhagdybiaeth hon, mae'r effaith bosibl ar y gost yn amrywio ar draws awdurdodau bilio, o amcangyfrif o £3,500 i £33,000 fesul awdurdod, yn dibynnu ar nifer yr hysbysiadau atgoffa a ddyroddir, sef cyfanswm amcangyfrifedig o £195,000 y flwyddyn. Dros Asesiad pum mlynedd, mae hyn yn cyfateb i gyfanswm cost gwerth presennol o £911,000 ledled Cymru.
- 6.21 Mae'r costau gweinyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â dyroddi hysbysiadau pellach yn debygol o amrywio rhwng awdurdodau bilio. Bydd ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar y costau hyn yn dibynnu ar faint sylfaen drethu'r awdurdod, nifer yr achosion gorfodi sydd ganddo, ei arferion presennol a'i lefel o aeddfedrwydd digidol a dulliau gwasanaeth cwsmeriaid wedi'u moderneiddio.
- 6.22 Efallai na fydd awdurdodau sydd â systemau cyfathrebu digidol mwy datblygedig, gweithdrefnau rhannu data a dulliau gwasanaeth cwsmeriaid wedi'u moderneiddio ond yn profi cynnydd bach mewn costau, yn enwedig os ydynt eisoes yn defnyddio hysbysiadau atgoffa drwy e-bost neu neges destun. I'r gwrthwyneb, gall y rhai sy'n dibynnu ar brosesau sy'n fwy dibynnol ar waith llaw neu bapur wynebu costau gweinyddol a phostio uwch fesul uned. Mae trafodaethau gydag awdurdodau bilio ledled Cymru yn dangos mai dim ond chwech sy'n dyroddi hysbysiadau atgoffa drwy neges destun ar hyn o bryd.

- 6.23 Gellid lliniaru nifer o'r costau hyn drwy fuddsoddi mewn sianeli digidol. Gallai gwella strategaethau ymgysylltu digidol, megis gwella platfformau hunanwasanaeth a hyrwyddo'r defnydd o e-filio, helpu i leihau'r ddibyniaeth ar hysbysiadau ffisegol a chynyddu effeithlonrwydd gweithredol dros amser.
- 6.24 Mae hyn yn gyfle nid yn unig i reoli costau'n fwy effeithiol, ond hefyd i wella hygyrchedd, ymatebolrwydd a chynaliadwyedd amgylcheddol gwasanaethau yn gyffredinol.
- 6.25 Mae tystiolaeth gynyddol y **gall hysbysiadau atgoffa drwy neges destun fod yn fwy effeithiol** na llythyrau atgoffa treth gyngor traddodiadol, o ran cyfraddau talu ac effeithlonrwydd gweinyddol. Mae sawl awdurdod bilio yn y DU wedi treialu neu fabwysiadu hysbysiadau atgoffa drwy neges destun ac wedi adrodd gwelliannau nodedig:
- Defnyddiodd [Cyngor Bwrdeistref Elmbridge](#) GOV.UK Notify i anfon hysbysiadau atgoffa drwy neges destun, gan arwain at bron i £40,000 o arbedion effeithlonrwydd mewn swyddogaethau swyddfa gefn yn y flwyddyn gyntaf. Gwelodd hefyd ostyngiad mewn llythyrau papur a mwy o daliadau yn cael eu gwneud ar amser.
  - Anfonodd [Cyngor Bwrdeistref Dacorum](#) 3,000 yn llai o lythyrau dros dri mis, gan arbed £5,000 mewn costau postio ac argraffu, a dyroddodd 400 yn llai o wysion llys, gan arbed dros £22,000 i drigolion mewn ffioedd cyfreithiol.
  - Yn ystod un flwyddyn, casglodd [Cyngor Rotherham](#) £1.8 miliwn mewn ôl-ddyledion treth gyngor gan ddefnyddio hysbysiadau atgoffa drwy neges destun a phorth talu ar ddyfeisiau symudol. Roedd y cyfraddau clicio drwodd ar gyfer yr hysbysiadau yn amrywio o 34% i 67%, gan ddangos ymgysylltiad cryf.
- 6.26 Mae awdurdodau yng Nghymru wedi mynegi pryderon drwy'r ymgynghoriad y gallai ymestyn amserlenni casglu leihau'r cyfle i adennill dyledion o fewn yr un flwyddyn ariannol, gan ganiatáu i ôl-ddyledion gario drosodd i'r flwyddyn nesaf a gwaethgu caledi ariannol i aelwydydd. Fe wnaethant hefyd fynegi pryderon am y diffyg adnoddau gorfodi sydd ar gael, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod traddodi i'r carchar wedi cael ei ddileu yn 2019, sydd, yn eu barn nhw, yn cyfyngu ar eu gallu i ymgysylltu'n effeithiol â dyledwyr sy'n gallu talu ond sy'n dewis peidio. Ar 31 Mawrth 2025, cyfanswm yr ôl-ddyledion ledled Cymru oedd £263m, gyda £103m yn cael ei briodoli i ôl-ddyledion yn ystod y flwyddyn.
- 6.27 Mewn ymateb i ôl-ddyledion cynyddol a'r argyfwng costau byw parhaus, mae llawer o awdurdodau bilio'r DU wedi mabwysiadu'r defnydd o ddata credyd a setiau data allanol i wella'r broses o gasglu'r dreth gyngor. Drwy ddefnyddio Asiantaethau Gwirio Credyd, gall awdurdodau bilio ddadansoddi ymddygiad ar ôl methu taliad, megis a yw preswylwyr yn blaenoriaethu dyledion eraill, a nodi arwyddion o sefyllfa ariannol fregus. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi

awdurdodau bilio i deilwra strategaethau triniaeth, gan symud i ffwrdd o ddull 'un ateb sy'n addas i bawb'.

- 6.28 Defnyddiodd [Cynllun Peilot Deddf yr Economi Ddigidol](#) (2017), a oedd yn cynnwys 29 o awdurdodau bilio a Llywodraeth y DU, ddata cyflogwyr CThEF i adennill dyled treth gyngor ar ôl gorchymyn atebolrwydd. Nod y fenter oedd gwella'r broses o adennill dyledion wrth gefnogi unigolion agored i niwed. Roedd canlyniadau allweddol y cynllun peilot yn cynnwys:
- Adennill oddeutu £5 miliwn mewn dyled heb ei thalu, sy'n cynrychioli cyfradd gasglu o 20% o'i gymharu â'r gyfradd gyffredinol o 3%;
  - Nodi 7% o gyfranogwyr fel rhai agored i niwed, gan gynnig cymorth iddynt wedyn;
  - Mwy o ymgysylltiad gan ddyledwyr nad oeddent yn ymateb o'r blaen.
- 6.29 Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos y gallai awdurdodau sy'n mabwysiadu dulliau wedi'u moderneiddio o ymgysylltu â chwsmeriaid sy'n seiliedig ar ddata fod mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â phryderon ynghylch cyfraddau casglu. Gall defnyddio'r adnoddau hyn wella ymgysylltiad, helpu i gynnal perfformiad camau adennill, a lliniaru'r risg o ddyledion cynyddol.
- 6.30 Mae'r elfennau nad ydynt yn ddeddfwriaethol o raglen Llywodraeth Cymru i wella'r dreth gyngor ac arferion gorfodi yn cynnwys ystyried adnoddau o'r fath mewn partneriaeth â llywodraeth leol.
- 6.31 Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion newydd, bydd angen i awdurdodau bilio adolygu eu gweithdrefnau gweithredol a diweddarau eu dulliau cyfathrebu. Gall y newidiadau hyn gynnwys mân addasiadau i feddalwedd bilio a hyfforddiant staff ar y prosesau diwygiedig, gan arwain at gostau tymor byr cymharol fach. Yn dilyn ymgynghori, amcangyfrifwyd bod costau gweithredu, cyfartalog gan gynnwys newidiadau i feddalwedd, rhwng £15,000 a £20,000 fesul awdurdod. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn dreuliau untro, a bwriad Llywodraeth Cymru yw eu talu drwy grant untro ym mlwyddyn ariannol 2025–26.

## **Manteision**

- 6.32 Gallai prosesau casglu mwy effeithlon a llai o ddibyniaeth ar gamau drutach gorfodi (e.e., achosion llys) arwain at arbedion hirdymor posibl.
- 6.33 Mae darparu disgresiwn i awdurdodau bilio ynghylch sut a phryd i ddyroddi hysbysiadau atgoffa yn caniatáu strategaethau ymgysylltu mwy ymatebol, wedi'u teilwra yn well. Gall hyn gynnwys allgymorth digidol (negeseuon e-bost / negeseuon testun) a hysbysiadau sy'n rhoi mwy o wybodaeth, gan sicrhau bod camau gorfodi yn cyd-fynd ag arferion gorau mewn dulliau gwasanaeth cwsmeriaid wedi'u moderneiddio.
- 6.34 Disgwylir i'r drefn strwythuredig o hysbysiadau atgoffa a hysbysiadau terfynol feithrin arferion cyfathrebu ac ymgysylltu gwell â threthdalwyr. Gall dull cliriach a mwy cyson arwain at fwy o gydymffurfiaeth a materion o ran methu talu'n cael eu datrys yn gynharach, gan leihau'r angen am weithdrefnau gorfodi costus.

- 6.35 O'r 116,000 o wysion llys a ddyroddwyd yn ystod 2024-25, mae'n rhesymol tybio bod y nifer a gafodd eu tynnu'n ôl yn adlewyrchu ymgysylltiad effeithiol ag aelwydydd a gytunodd i drefniadau talu amgen. Pe bai'r aelwydydd hyn wedi ymateb i hysbysiadau atgoffa neu hysbysiadau terfynol cynharach ac wedi setlo eu dyledion neu geisio cymorth heb fynd ymlaen i'r cam gwys llys, byddai'r costau cysylltiedig wedi bod yn sylweddol is. Fodd bynnag, byddai rhai o'r gwysion llys hyn hefyd wedi cael eu datrys drwy benderfynu ar gymhwysedd ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor neu esemptiad, neu drwy'r awdurdod yn casglu rhagor o wybodaeth i benderfynu ar achosion sy'n agored i niwed. Mae'r cymhlethdod hwn yn adlewyrchu natur unigol system y dreth gyngor a'r gallu i feintio costau a manteision yn gywir.
- 6.36 Ers 2011, mae ffioedd llys sy'n gysylltiedig â chatau gorfodi yng Nghymru wedi'u capio ar £70. Mae'r ffi sefydlog hon yn cwmpasu dyroddi gwys llys a'r cais dilynol am orchymyn atebolrwydd.

**Senario waelodlin:** Mae awdurdod bilio yn prosesu 5,000 o achosion treth gyngor bob blwyddyn i'r cam gwys llys.

**Cost gyfartalog fesul gwys llys:** £50 (gan gynnwys amser staff, gorbenion gweinyddol, etc.).

**Cost dyroddi 10 hysbysiad atgoffa y mis fesul achos:** £15.50.

**Tabl 6.1 Arbedion Posibl yn sgil Ymgysylltu'n Gynnar**

| % y gwysion llys a gafodd eu tynnu'n ôl | Achosion | Cost Gwysion Llys | Cost 10 Hysbysiad Atgoffa | Arbedion Posibl |
|-----------------------------------------|----------|-------------------|---------------------------|-----------------|
| 5%                                      | 250      | £12,500           | £3,875                    | £8,625          |
| 10%                                     | 500      | £25,000           | £7,750                    | £17,250         |
| 20%                                     | 1,000    | £50,000           | £15,500                   | £34,500         |

- 6.37 Mae ei gwneud yn ofynnol bod hysbysiadau atgoffa a hysbysiadau terfynol yn cael eu dyroddi cyn dechrau camau gorfodi yn sicrhau bod pob trethdalwr yn cael ei drin yn deg ac wedi'i hysbysu'n llawn ar bob cam. Mae'r broses fwy tryloyw hon yn rhoi cyfle tecach i aelwydydd setlo eu cyfrifon, a cheisio cymorth a chynghor cyn i gamau cyfreithiol ddechrau, gan helpu i atal cynnydd cyflym mewn dyledion, a'r anfantais ariannol a'r straen cysylltiedig.
- 6.38 Gall awdurdodau sy'n buddsoddi ymhellach mewn adnoddau cyfathrebu digidol fel y galluogir gan yr elfennau eraill nad ydynt yn ddeddfwriaethol o nodau polisi Llywodraeth Cymru, megis negeseuon testun a hysbysiadau atgoffa meddal cynharach, elwa ar effeithlonrwydd gwell ac ymgysylltiad gwell â threthdalwyr. Gallai hyn, o bosibl, leihau'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â dyroddi hysbysiadau atgoffa ffurfiol.
- 6.39 Mae manteision y rheoliadau newydd yn ymestyn y tu hwnt i arbedion cost. Disgwylir i gydymffurfiaeth well a datrys materion o ran methu talu'n gynharach leihau nifer y camau gorfodi ffurfiol a'u cost, gan gynnwys y camau hynny sy'n

ychwanegu cost bellach at ddyled y dreth gyngor drwy ffioedd gweinyddu gorchmynion atebolrwydd a beiliaid. Mae'r drefn strwythuredig o hysbysiadau atgoffa a hysbysiadau terfynol yn meithrin arferion cyfathrebu cliriach ac yn sicrhau bod trethdalwyr yn cael eu trin yn deg. Mae'r broses fwy tryloyw hon yn helpu i atal cynnydd mewn dyledion ac yn lleihau straen i aelwydydd.

- 6.40 Mae'r dadansoddiad enghreifftiol canlynol yn seiliedig ar awdurdod bilio yn prosesu 5,000 o achosion bob blwyddyn i orfodi gorchymyn atebolrwydd, ar gost o £70 fesul achos. Mae'n dangos y gall hyd yn oed gwelliannau cymharol fach o ran yr ymgysylltu cynnar a wneir arwain at arbedion.

**Tabl 6.2 Amcangyfrif o Arbedion Blynyddol yn sgil Datrys yn Gynnar**

| Senario                              | Achosion wedi'u datrys yn gynnar | Costau gorfodi wedi'u hosgoi |                                                 |
|--------------------------------------|----------------------------------|------------------------------|-------------------------------------------------|
| Achos ceidwadol (gwelliant o 5%)     | 250 o achosion                   | £17,500                      | Gwelliant bach                                  |
| Achos cymedrol (gwelliant o 10%)     | 500 o achosion                   | £35,000                      | Gwelliant cyson                                 |
| Achos uchelgeisiol (gwelliant o 20%) | 1,000 o achosion                 | £70,000                      | Ymgysylltu cryf, awdurdodau 'digidol yn gyntaf' |

- 6.41 Ni ddisgwylir unrhyw effaith sylweddol ar fusnesau na'r economi ehangach.

### **Crynodeb o'r costau a'r manteision**

- 6.42 Mae tabl 6.3 yn crynhoi'r costau a'r manteision amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â gweithredu Rheoliadau 2025. Dangosol yw'r ffigurau hyn, a'u bwriad yw dangos yr effaith ariannol a gweithredol bosibl ar awdurdodau bilio, gan gydnabod y bydd canlyniadau gwirioneddol yn amrywio yn dibynnu ar ffactorau fel maint yr awdurdod, nifer yr achosion gorfodi, dewisiadau lleol, aeddfedrwydd digidol a dulliau gwasanaeth cwsmeriaid wedi'u moderneiddio.
- 6.43 Er nad yw'r Rheoliadau yn pennu tueddiadau economaidd ehangach, mae penderfynyddion allweddol nifer yr aelwydydd sydd mewn dyled treth gyngor hefyd yn cynnwys perfformiad cyffredinol yr economi a phwysau costau byw, sy'n pennu'r gallu i dalu biliau aelwyd.
- 6.44 Gellir ystyried unrhyw gostau gwella arferion casglu hefyd mewn perthynas â'r gost flynyddol reolaidd o weinyddu'r system drethu leol ehangach yng Nghymru, sydd tua £52m mewn [gwariant](#) cyfredol net yn ôl adroddiadau, ac mewn perthynas â'r [refeniw](#) a godir gan system y dreth gyngor, sef dros £2.8bn y flwyddyn. Yn y cyd-destun hwn, er y gall rhai awdurdodau wynebu cynnydd bach mewn costau gweinyddol, gall eraill wireddu arbedion cymedrol drwy gydymffurfiaeth well a llai o ddibyniaeth ar gamau gorfodi ffurfiol. Mae'r tabl

hefyd yn cydnabod y manteision anniriaethol ehangach sy'n gysylltiedig â phroses decach, fwy tryloyw sy'n gwella ymddiriedaeth ymhlith trethdalwyr ac yn lleihau straen i aelwydydd.

**Tabl 6.3 Crynodeb o'r Costau a'r Manteision Amcangyfrifedig**

| <b>Categori</b>                             | <b>Effaith a Amcangyfrifir</b>                                     | <b>Nodiadau</b>                                                                                    |
|---------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Costau gweithredu cychwynnol</b>         | Cost untro fach (£15k-20k fesul awdurdod)                          | Uwchraddio meddalwedd, adolygiadau gweithdrefnol                                                   |
| <b>Costau gweinyddu</b>                     | Cynnydd bach (e.e. £5k-49k fesul awdurdod/y flwyddyn)              | Hysbysiadau ychwanegol i drethdalwyr, amser staff                                                  |
| <b>Cydymffurfiaeth well</b>                 | Arbedion bach i gymedrol (e.e. £8k-£34k fesul awdurdod/y flwyddyn) | Mwy o daliadau yn cael eu gwneud ar amser, a llai o wysion llys                                    |
| <b>Llai o gostau gorfodi yn gyffredinol</b> | Arbedion bach i gymedrol (e.e. £17k-70k fesul awdurdod/y flwyddyn) | Llai o ddibyniaeth ar feiliaid, a llai o ffioedd cyfreithiol ac apeliadau                          |
| <b>Manteision anniriaethol</b>              | Uchel                                                              | Mwy o degwch i aelwydydd, mwy o ymddiriedaeth ymhlith trethdalwyr, llai o straen, a llesiant gwell |

*Noder; dangosol yw'r ffigurau. Gall costau/manteision gwirioneddol amrywio yn seiliedig ar faint yr awdurdod, aeddfedrwydd digidol, arferion lleol a nifer yr achosion gorfodi*

## **Dewis opsiwn**

6.45 Ni fyddai cadw'r rheoliadau presennol heb eu diwygio yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'r broses o weinyddu a gorfodi'r dreth gyngor yng Nghymru. Ni fyddai'r dull hwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed drwy ddiwygiadau blaenorol, ac ni fyddai'n cyfrannu at yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i greu system dreth gyngor decach.

6.46 Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffeirir. Drwy newid y gweithdrefnau gweinyddol a'r mecanweithiau gorfodi, nod y diwygiadau yw lleihau amwysedd, gwella

cysondeb ar draws awdurdodau bilio, a hyrwyddo dull mwy teg sy'n ystyried amgylchiadau unigol.

## **7. Dyletswyddau**

### **7.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Bydd y polisi hwn yn cyfrannu at yr amcanion llesiant canlynol: Cymru ffyniannus; Cymru fwy cyfartal; a Chymru o gymunedau cydlynus.

### **7.2 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Mae'r cynigion hyn wedi rhoi sylw i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn ymgorffori'r ddyletswydd i ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Ni nodwyd unrhyw effeithiau.

### **7.3 Cydraddoldeb**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

### **7.4 Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("ECHR")**

Ystyriwyd yr ECHR o ran: - Erthygl 8(1) - parch at fywyd preifat a theuluol a'r cartref - Erthygl 14 - gwahardd gwahaniaethu.

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol disgwylidig ar yr hawliau hyn o ganlyniad i'r offeryn hwn.

### **7.5 Y Gymraeg**

Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal mewn cysylltiad â darpariaethau'r offeryn hwn.

### **7.6 Y sector gwirfoddol**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar y sector gwirfoddol.

### **7.7 Cyfiawnder**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar ôl cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder, o ganlyniad i greu'r offeryn hwn.

## **8. Asesu'r gystadleuaeth**

Cynhaliwyd prawf hidlo'r gystadleuaeth ac mae wedi dangos na fydd yr offeryn hwn yn cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar gynnyrch neu wasanaethau a fyddai'n effeithio ar gystadleuaeth yn y farchnad.

## **9. Adolygu ar ôl gweithredu**

Mae ystadegau blynyddol yn cael eu [cyhoeddi](#) gan Lywodraeth Cymru sy'n mesur cyfradd gasglu'r dreth gyngor a swm yr ôl-ddyledion, fel yr adroddir gan awdurdodau bilio. Mae'r rhain yn rhoi trosolwg o'r tueddiadau yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau bilio i fonitro effaith yr offeryn statudol i werthuso a yw'r newid deddfwriaethol wedi cael yr effaith polisi a fwriadwyd.